**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**26 Mai 2021**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE** |
| **Pwnc:** | **Trefniadau asesu: tymor yr haf 2021** |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno crynodeb o ganllawiau Llywodraeth Cymru ar drefniadau asesu tymor yr 2021 a gyhoeddwyd ar Ebrill 7fed, 2021 i aelodau'r Cydbwyllgor.

## 2.0 Cefndir

2.1 Yn dilyn y cyfnod clo diweddaraf, cyhoeddwyd canllawiau i ysgolion a lleoliadau ar asesu dysgwyr ar gyfer tymor yr haf 2021. Mae hyn yn ymwneud ag arferion asesu arferol, nid y trefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer cymwysterau cyffredinol eleni.

## 3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Ar ddiwedd y cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3, ni fydd yn ofynnol i ysgolion gynnal asesiadau terfynol na chadw cofnod ohonynt, ac ni fydd Casglu Data Cenedlaethol yn digwydd ym mlwyddyn academaidd 2020/21.

3.2 Ni ddisgwylir y bydd y sgyrsiau cymedroli ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn cael eu cynnal.

3.3 Bydd angen i ysgolion wneud darpariaeth ar gyfer pontio. Dylai profiad proffesiynol a gwybodaeth am eu dysgwyr lywio'r drafodaeth i adeiladu ar gynnydd a'i gefnogi.

3.4 Mae lles dysgwyr yn ffocws allweddol yn y tymor sydd i ddod. Gall asesu ar gyfer cynnydd dysgwyr, ymgorffori asesu yn yr arferion dyddiol, ymgysylltu â'r dysgwyr a'u cynnwys yn y broses o ddeall ac yna cynllunio eu taith eu hunain oll gyfrannu at gefnogi lles y dysgwyr.

3.5 Bydd y gofynion ynghylch asesiadau personol yn parhau ar sail ymdrechion rhesymol ac anogir ysgolion i'w defnyddio er mwyn i athrawon allu deall a diwallu anghenion dysgwyr unigol.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**
Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn, a bydd GwE yn gweithredu o fewn eu hadnoddau ariannol cyfredol.